**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL**

**BIL PLANT A THEULUOEDD: GWELLIANT MEWN PERTHYNAS Â PHACIO CYNHYRCHION TYBACO AR GYFER ADWERTHU, RHEOLEIDDIO CYNHYRCHION TYBACO EU HUNAIN A CHREU TROSEDDAU CYSYLLTIEDIG**

1. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwn yn cael ei osod o dan Reol Sefydlog (RhS) 29.2. Mae SO29 yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod, a gallai Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei gyflwyno, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn, neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol*.*

2. Cafodd y Bil Plant a Theuluoedd (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 4 Chwefror 2013*.* Gellir gweld y Bil yn: http://services.parliament.uk/bills/2012-13/childrenandfamilies.html

## Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Mae'r Bil yn cael ei noddi gan yr Adran Addysg (DfE) i wneud newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio cymorth i blant a theuluoedd. Mae hanner cyntaf y Bil yn ceisio gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc drwy ddiwygio'r systemau ar gyfer mabwysiadu, Plant sy'n Derbyn Gofal, cyfiawnder teuluol ac Anghenion Addysgol Arbennig. Mae'r ail hanner yn ceisio annog twf yn y sector gofal plant, absenoldeb rhiant a rennir a sicrhau bod gan blant yn Lloegr eiriolwyr cryf dros eu hawliau.

4. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â:

(a) Mabwysiadu **-** cyflawni diwygiadau i: leihau oedi yn y system fabwysiadu; ehangu'r defnydd o 'Faethu ar gyfer Mabwysiadu; gwella'r cymorth sydd ar gael i fabwysiadwyr a'r trefniadau ar gyfer recriwtio ac asesu darpar fabwysiadwyr a gwneud y Gofrestr Mabwysiadu a'r Ddeddf Plant yn gofrestr statudol wrth iddi gael ei chymhwyso at Loegr.

(b) Diwygio'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr[1] i ymdrin ag oedi mewn achosion cyfraith gyhoeddus;

- trwy weithredu terfyn amser 26 wythnos ar gyfer achosion gofal a goruchwylio; lleihau'r defnydd gormodol o adroddiadau arbenigwyr, dileu dyblygu diangen, a sicrhau bod yr effaith ar y plentyn yn cael ei hystyried pan fo penderfyniadau ynghylch amserlennu yn cael eu gwneud, ac

[1] Adolygiad FJR o'r system cyfiawnder teuluol i Gymru a Lloegr a datganiad ysgrifenedig http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/justice/;jsessionid=F5E2D1B1C006F79F4176E6D249D006D4?lang=en
http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2012/familyjusticereviewupdate/?lang=en ,

- mewn cyfraith teulu preifat - drwy ei gwneud yn ofynnol i rieni fynychu cyfarfod cyfryngu teuluol ac asesiad cyn gwneud cais i'r llys; anfon neges glir i rieni sydd wedi gwahanu y bydd llysoedd yn cymryd i ystyriaeth yr egwyddor y dylai'r ddau barhau i gymryd rhan weithredol ym mywydau eu plant pan fo hynny'n ddiogel ac yn gyson â lles y plentyn; a chyflwyno "gorchymyn trefniadau plentyn" newydd fel y gall y llysoedd wneud defnydd llawn o bwerau i gyfarwyddo rhieni i ymgymryd â gweithgareddau sy'n anelu at eu helpu i wneud i drefniadau ar gyfer eu plant weithio, a symleiddio prosesau ysgariad ar gyfer y llysoedd.

(c) Diwygio'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn Lloegr i: wella cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed, cynnig cyllideb bersonol i blant a theuluoedd, gofyn am well cydweithio rhwng gwasanaethau, gwybodaeth gliriach am y cymorth sydd ar gael; symleiddio prosesau a chynlluniau asesu.

(d) Gofal Plant, gan gynnwys cynyddu hyblygrwydd ar gyfer gwarchodwyr plant drwy gyflwyno asiantaethau gwarchodwyr plant.

(e) Plant sy'n derbyn gofal: ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yn Lloegr ddynodi swyddog i weithredu fel y 'Pennaeth Ysgol Rhithwir' (VSH) ar gyfer y plant y mae'n gofalu amdanynt; egluro'r hawl i asesiad am gefnogaeth i ofalwyr ifanc, a galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno rheoliadau newydd gyda'r nod o godi safonau mewn cartrefi plant.

(f) Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr - gwella pwerau'r comisiynydd i hyrwyddo a diogelu hawliau plant a mwy o annibyniaeth oddi wrth Lywodraeth y DU. Bydd y newidiadau yn berthnasol i rôl y Comisiynydd o ran hyrwyddo ac amddiffyn hawliau plant yn y gweinyddiaethau datganoledig, ond dim ond mewn perthynas â materion sydd heb eu datganoli.

(g) Absenoldeb Rhiant a Rennir a Gweithio Hyblyg: cyflwyno system ar gyfer absenoldeb rhiant a rennir a thâl rhieni statudol a rennir yn ogystal â diwygio'r system sy'n rhoi'r hawl i unigolion ofyn am weithio hyblyg.

**Darpariaethau yn y Bil y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer**

5. Gofynnir am gydsyniad y Cynulliad i'r gwelliant, a gyflwynwyd ar 16 Rhagfyr, 2013, a fydd yn rhoi pwerau galluogi i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i (1) reoleiddio deunydd pacio cynhyrchion tybaco ar gyfer manwerthu; (2) rheoleiddio'r marciau ar gynhyrchion tybaco a'u hymddangosiad, a (3) creu troseddau cysylltiedig. Cyn belled ag y rhoddir cydsyniad i'r gwelliant gan y deddfwrfeydd perthnasol, byddai'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ogystal â Lloegr.

6. Mae "cynnyrch tybaco" yn cael ei ddiffinio fel cynnyrch sy'n cynnwys tybaco yn gyfan gwbl neu'n rhannol ac y bwriedir iddo gael ei ysmygu, ei anadlu, ei sugno neu ei gnoi. Mae "deunydd pacio ar gyfer manwerthu" mewn perthynas â chynnyrch tybaco yn golygu'r deunydd pacio y mae'n cael ei gyflwyno ynddo i'w fanwerthu neu y bwriedir iddo gael ei gyflwyno ynddo. Mae "gwerthiant ar

gyfer manwerthu" yn golygu gwerthiant ac eithrio i berson sy'n gweithredu yng nghwrs busnes sy'n rhan o'r fasnach dybaco.

7. Gallai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau os yw’n ystyried y gallai’r rheoliadau gyfrannu ar unrhyw adeg at leihau'r risg o niwed i, neu hybu iechyd neu les, pobl o dan 18 oed. Gallai’r Ysgrifennydd Gwladol ystyried hefyd a allai’r rheoliadau gyfrannu ar unrhyw adeg at leihau'r risg o niwed i, neu hybu, iechyd neu les pobl 18 oed neu'n hŷn.

8. Effaith gyffredinol y ddarpariaeth arfaethedig yw rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau:

(a) am ddeunydd pacio cynhyrchion tybaco ar gyfer manwerthu. Yn arbennig gallai rheoliadau osod gwaharddiadau, gofynion neu gyfyngiadau sy'n ymwneud â: y marciau ar gynhyrchion tybaco ar gyfer manwerthu (gan gynnwys y defnydd o frandio, nodau masnach neu logos); ymddangosiad a'r deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer deunydd pacio o'r fath; maint, gwead a siâp deunydd pacio o'r fath; y dull o agor deunydd pacio o'r fath, y deunyddiau sydd ynghlwm wrth neu sy'n cael eu cynnwys gyda chynhyrchion tybaco; unrhyw nodweddion eraill y gellid eu defnyddio i wahaniaethu rhwng cynhyrchion tybaco, y nifer o gynhyrchion tybaco unigol a gynhwysir mewn pecyn unigol a swm y cynnyrch tybaco a gynhwysir mewn pecyn unigol;

(b) sy'n gwneud darpariaeth sy'n gosod gwaharddiadau, gofynion neu gyfyngiadau sy'n ymwneud â'r marciau ar gynhyrchion tybaco (gan gynnwys y defnydd o frandio, nodau masnach neu logos); maint, ymddangosiad, blas a siâp cynhyrchion o'r fath ac unrhyw nodwedd arall o gynhyrchion tybaco y gellid ei defnyddio i wahaniaethu rhwng gwahanol frandiau o gynnyrch tybaco;

(c) creu troseddau y gellir eu cyflawni gan bersonau sy'n cynhyrchu neu'n cyflenwi cynhyrchion tybaco neu ddeunydd pacio cynhyrchion tybaco ar gyfer manwerthu sy'n torri'r gwaharddiadau, gofynion neu gyfyngiadau a nodir yn y rheoliadau;

(d) sy'n diwygio, diddymu neu ddirymu neu addasu fel arall unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan unrhyw ddeddfiad er mwyn rhoi effaith i reoliadau sy'n cynnwys darpariaethau a nodir yn (a), (b) neu (c) uchod.

9. Mae'r gwelliant hefyd yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau a fyddai (pe baent yn cael eu cynnwys mewn Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'r gwelliant yn cynnwys darpariaethau yn union yr un fath mewn perthynas â'r Alban a Gogledd Iwerddon.

10. Mae'r gwelliant i'r Bil yn ymestyn at y Deyrnas Unedig i gyd.

11. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â rheoleiddio deunydd pacio cynhyrchion tybaco ar gyfer

manwerthu; rheoleiddio cynhyrchion tybaco a chreu troseddau cysylltiedig - pynciau sy'n dod o dan benawdau iechyd a gwasanaethau iechyd a lles cymdeithasol yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad**

12. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil y DU hwn gan ei fod yn cynrychioli'r dull deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys o ran Cymru.

13. Byddai'r gwelliant arfaethedig yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n berthnasol i'r DU gyfan. Y mae, ym marn Llywodraeth Cymru, fanteision clir i ddull o'r fath:

(a) byddai rheoliadau a fyddai'n rheoleiddio deunydd pacio cynhyrchion tybaco ar gyfer manwerthu ac ymddangosiad cynhyrchion tybaco eu hunain yn dod i rym ar draws y DU gyfan yr un pryd. Bydd hyn yn lleihau'r cyfleoedd i ddefnyddwyr geisio prynu cynhyrchion tybaco mewn pecynnau sydd wedi'u brandio yn gonfensiynol;

(b) ni fyddai unrhyw wahaniaeth yn y gofynion ar gyfer deunydd pacio cynhyrchion tybaco ar gyfer manwerthu nac ar gyfer ymddangosiad cynhyrchion tybaco eu hunain ar draws y DU. Byddai hyn yn lleihau unrhyw feichiau ar fusnesau ac yn cynorthwyo'r gwaith o orfodi'r gofynion newydd gan na fyddai unrhyw faterion traws-ffiniol. Byddai hefyd yn gyson ar gyfer defnyddwyr cynhyrchion tybaco;

(c) ystyrir y bydd y neges iechyd cyhoeddus yn cael ei chyfleu'n gliriach gan strategaeth gyson yn ymwneud â deunydd pacio cynhyrchion tybaco ar gyfer manwerthu ar draws y DU a byddai hefyd yn adlewyrchu'r pwysigrwydd y mae pob un o'r gweinyddiaethau yn ei roi i'r maes hwn o iechyd y cyhoedd.

**Goblygiadau ariannol**

14. Ni ragwelir bod unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

**Mark Drakeford AC**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Rhagfyr 2013**